

# Gwneuthurwyr Clociau Penmachno gan Hywel Roberts

**M**ae Llanrwst yn enwog am glocliau John a Watkin Owen, ac ysgrifennodd Iorwerth Peate amdanynt yn ei lyfr *Clock and Watchmakers in Wales* (1975). Yn dilyn ymchwil manwl yn ddiweddarach fe gyhoeddwyd llyfr am y teulu â'u clociau yn 2002 sef, *The Clockmakers of Llanrwst* gan Colin a Mary Brown, Bridge Books, Wrecsam.

Yn ogystal â manylion am y prif wneuthurwyr clociau mae pennod ar "*The lesser makers and retailers*" ac yno mae enw Mathew Williams, Penmachno, yn ymddangos. Dim ond un cloc ddarganfuwyd gyda'i enw arno gan yr ymchwilwyr ond mae gen innau hefyd gloc Mathew Williams, ac felly mae dau, o leiaf, o'i glocliau wedi goroesi hyd heddiw.

Roedd fy hen daid, William Pritchard Williams, Talywaen, Penmachno, yn priodi Catherine Roberts, merch Robert Cadwallader a Mary Roberts o fferm Tyddyn Ucha, Penmachno yn 1874. Er mwyn paratoi eu cartref fe brynodd William nifer o ddodrefn tŷ gan ei ddarpar dad-yng-nghyfraith ac mae'r dderbynneb am y nwyddau wedi ei ddyddio 11 Awst 1874. Arwyddwyd gan John Roberts, brawd Catherine, gan nad oedd eu tad, Robert Cadwallader, yn medru sgwennu. (mae gennyf dystiolaeth o hyn).

## Cael cloc mawr yn rhodd

Mae'r dderbynneb yn enwi, "Cloc Mawr, Sester Dror, Cwpwr Gwydyr, dau wely a phethau eraill" ac fe dalodd fy hen daid y swm uchel o £30 amdanynt. Erbyn hyn mae'r "Sester Dror" gen i, a'r cwpwrdd gwydyr gan fy chwaer, a chofiaf hwy'n dda yng nghartref fy nhaid a nain, Robert Cadwallader a Jenni Williams, yn Gwiga, Penmachno. Y mab hynaf, William John Williams, Tyddyn Meistr, Penmachno gafodd y cloc mawr. Bu farw dau o'i blant yn ifainc, Jane yn 7 mis oed ac Ifan yn ugain mlwydd oed gan adael un

ferch Catherine. Gadawyd Catherine yn weddw ifanc ddi-blant a rhoddodd y cloc mawr i mi tua deg mlynedd ar hugain yn ôl.

Dywedodd mam fod Mathew Williams yn berthynas ond ni ddarganfyddais dystiolaeth o hyn (hyd yma o leiaf!). Tyddyn Ucha yw'r fferm agosaf at Parc, cartref Mathew, ac felly mae'n debyg fod Mathew yn gymydog â ffrind teuluol i deulu Tyddyn Ucha yn hytrach na pherthynas.

Ganwyd Mathew Williams yn 1844 ym Mhenmachno yn fab i Robert a Mary Williams a oedd yn ffarmio fferm y Parc. Roeddynt yno yng nghyfrifiad 1841 hyd eu marwolaeth yn 1874 (Mary) a 1894 (Robert).

## "Watch and clock maker"

Yng Nghyfrifiad 1851 roedd Mathew yn 7 oed yn byw yn y Parc. Mae rhan helaeth o gofnodion cyfrifiad 1861 Penmachno ar goll. Yn 1871 roedd Mathew yn parhau yn y Parc, yn 27 oed, yn ddibriad ac yn cael ei ddisgrifio fel "Watch and clock maker". Tybed a wnaeth brentisiaeth gyda gwneuthurwyr clociau enwog Llanrwst?

Priododd Anne Evans, merch Evan Evans, "Draper and grocer", yn Eglwys St Tudclud, Penmachno, ar 5 o Fai 1871. Disgrifir Mathew fel "Watchmaker" ar y dystysgrif. Hanai Anne o Lanbrynmair. Ganwyd mab iddynt, Evan Robert, ar 22 Mawrth, 1872 a phryd hynny roeddynt yn byw yn Gethin



Wyneb y cloc gyda'r enw, "M. Williams Penmachno"

Square, Penmachno, a Mathew yn "Watchmaker and Ironmonger".

Y sylw nesaf a welais am Mathew oedd hanes trist yn Baner ac Amserau Cymru, 12 o Fawrth 1879 o dan y pennawd, "*Hunanladdiad ym Mhenmachno*". Adroddir fod yr ardal gyfan wedi ei brawychu o glywed fod Mathew wedi'i grogi ei hun yn un o feudai y Parc ar 7 o Fawrth. Adroddwyd, "*Ers peth amser ymddengus nad oedd mor llwyddiannus ag y bu. Yr oedd hyn yn peri poen meddwl iddo.*" Yn ogystal â rhedeg ei fusnes roedd ganddo swydd cofrestrydd ar gyfer plwyfi cyfagos Ysptyt a Phentrefoelas ac mae'r adroddiad yn dweud iddo ymweld â'r plwyfi yma y diwrnod cyn ei farwolaeth yn casglu enwau genedigaethau a marwolaethau. Cafwyd cwest yn nhafarn y Machno ar 10fed o Fawrth 1879 lle cafwyd y dyfarniad, "*Suicide by hanging whilst temporarily insane*". Roedd yn 35 oed.

## Yn byw yn Greenwich House ym 1881

Claddwyd ym mynwent St. Tudclud a nodir "*Greenwich House*" fel ei gartref. Yn *Slaters Directory*, 1880, o dan y pennawd "*Watch and Clock Makers*" nodir ei weddw, Anne Williams, Penmachno. Yn Greenwich House yng nghyfrifiad 1881 mae Anne wedi ail briodi gyda John Jones, "*Engine Fitter*", ac mae ganddo fab, Jonny Jones, yn 15 oed. Hefyd mae Evan Robert Williams, 9 oed, a ddisgrifir yn "*Son in law*"; camgymeriad mae'n amlwg am "*step-son*" i John Jones. Mae yno hefyd "*servant*" o'r enw George G. Evans, 20 oed, a ddisgrifir fel "*Watchmaker*" ac felly mae'r busnes yn parhau.

(Parhâd ar dudalen 6)

1874  
Tyddyn Ucha  
Penmachno  
John Roberts  
to Williams & Williams  
Awst 11.  
Tan hosiad am ddodrefn tŷ  
Sef. Cloc Mawr Sester Dror Cwpwr  
Gwydyr yn Nghyd a Cledri ymddo.  
Dau Wely Hwialarn Swelu Plu yn Nghyd  
dillad dau Wely a llawer o bethau eraill  
at iws ty nad allaf ei henwi  
Swm yn Arian £30.0.0  
Awst 11  
John Roberts

Y dderbynneb wedi ei dyddio 11 Awst 1874